

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(A4050 PORT ROAD (RHAN) CYFYNGIADAU CYFLYMDER 40MYA A
50MYA, DIWYGIO A DIRYMU) 2022**

1. Hysbysir drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn i osod cyfyngiadau cyflymder a nodir yn yr Atodlen isod.
2. Gellir archwilio manylion llawn y cynigion, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig a'r Cynlluniau Rhif: T/22/53/WS a T/22/53A/WS ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF962) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **dydd Gwener 28 Hydref 2022** ac mae rhaid cynnwys eich sail dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

ATODLEN 1

**Cyfyngiad Cyflymder 40mya Arfaethedig Newydd
Llwybr yr A4050, Port Road (rhan)**

O'r gyffordd â chylchfan Cyfnewidfa Croes Cwrlwys i gyfeiriad y de yn gyffredinol i gylchfan St Andrews Road am bellter o tua 2800 metr.

ATODLEN 2

**Cyfuno/Diwygiadau arfaethedig i Orchmynion Rheoli Traffig presennol
Llwybr yr A4050, Port Road (rhan)**

Cyfyngiad Cyflymder 50mya

O'r gyffordd â chylchfan St Andrews Road i gyfeiriad y de yn gyffredinol i bwynt tua 270 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri yr A4231 am bellter o oddeutu 1020 metr.

Cyfyngiad Cyflymder 40mya

O bwynt 270 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r A4231 Heol Gyswllt Dociau'r Barri, i gyfeiriad y de-orllewin yn gyffredinol i Gylchfan Waycock Cross am bellter o oddeutu 4150 metr.

ATODLEN 3

Diddymiadau

Dirymu Atodlen 1 paragraff (ii) ac Atodlen 2 i gyfyngiad y Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol (a restrir fel Gorchymyn 451):

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (A48/A4050) (CYFYNGIAD
CYFLYMDER) 1991. (451)**

Dirymu'r Gorchmynion Rheoli Traffig canlynol (a restrir fel Gorchmynion 71, 81, 93, a 908) yn eu cyfanrwydd:

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (PORT ROAD, GWENFÔ)
(CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA) 1981. (71)**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (PORT ROAD, Y BARRI)
(CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA) A (PRT ROAD GWENFÔ) 1985. (81)**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (PORT ROAD, Y BARRI)
(CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA) 1979. (93)**

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (A4050 PROT ROAD Y BARRI
DIWYGIO'R CYFYNGIADAU CYFLYMDER 40MYA A 50MYA PRESENNOL) 2011
(908)**

Dyddiedig 6 Hydref 2022
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA.